# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jane Harris | Adran Etholiadol: | Pontarddulais |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cymerais ran mewn cymorthfeydd cyngor misol ac euthum i gyfarfodydd PACT lleol ac ymdriniais ag unrhyw gŵyn neu ymholiad. Euthum i gyfarfodydd a gweithio fel llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Pontarddulais ac Ysgol Gynradd Pontarddulais. Aelod a chyn-Faer Cyngor Tref Pontarddulais, euthum i gyfarfodydd misol. Mae'r cyngor tref yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol, gan gynnwys: rheoli'r sefydliad i ddarparu lle ar gyfer sefydliadau cymunedol; lle swyddfa i'r heddlu; arddangosfeydd blodau; sioeau ffilm i blant; Gorymdaith y Nadolig, addurniadau, coed a phantomeim; grantiau ariannol i achosion teilwng; marchnad fisol; cwis carnifal. Cysylltodd etholwyr â fi gydag amrywiaeth o faterion a darperais gyngor, cefnogaeth a help ymarferol. Lluniais gylchlythyr i etholwyr yn seiliedig ar faterion o ddiddordeb a help ymarferol. Rhoddais wybod i swyddogion y cyngor am faterion a godwyd gan etholwyr ac a oedd yn achosi pryder iddynt, megis dilyniant goleuadau traffig; cynllun goleuadau traffig; cyflymder traffig gormodol; uchder ymylon palmant; diffyg hysbysiadau parcio; tipio anghyfreithlon; uchder a lledaeniad coed ar y briffordd ac yn agos at dai o ystyried dirywiad amodau tywydd; parcio ar balmentydd.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Area 1 Development Control Committee | 6 | / | 12 | 50 | % |
| Corporate Parenting Forum | 6 | / | 6 | 100 | % |
| Council | 12 | / | 15 | 80 | % |
| Development Management & Control Committee | 5 | / | 8 | 63 | % |
| Gower AONB Partnership Group | 2 | / | 4 | 50 | % |
| Local Development Plan Advisory Group | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Performance & Delivery Committee | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Rights of Way and Commons Sub Committee | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Scrutiny Programme Committee | 13 | / | 16 | 81 | % |
| Trustees Panel | 2 | / | 5 | 40 | % |
| OVERALL | 53 | / | 76 | 70 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Cadeiriais y Panel Craffu ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Ofal Cartref, Fforwm Magu Plant Corfforaethol a chyfarfod camddefnyddio sylweddau Abertawe. Fi oedd y Cynghorydd-hyrwyddwr Iechyd a Lles.

Euthum i'r cyfarfodydd a digwyddiadau ychwanegol canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Ymchwilio Cyrhaeddiad a Lles | 3 o 6 chyfarfod | 50% |
| Ymchwilio Anweithgarwch Economaidd | 9 o 11 cyfarfod. | 81% |
| Strydlun. | 0 o 4 cyfarfod. | 0% |
| Ymchwilio i Fewnfuddsoddi. | 6 o 9 cyfarfod. | 67% |
| Ymchwilio Gofal Cymdeithasol yn y Cartref. | 6 o 7 cyfarfod. | 86% |
| Panel Perfformiad Lles. | 9 o 13 chyfarfod. | 69% |
| Panel Perfformiad Ysgol. | 9 o 15 cyfarfod. | 60% |
| Gweithgor Prydau Ysgol. | 1 o 2 gyfarfod. | 50% |
| Gweithgor y Gwasanaethau Cynllunio. | 1 o 1 cyfarfod. | 100% |
| Gweithgor Adeiladau Hanesyddol. | 1 o 1 cyfarfod. | 100% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor. Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau, Fforwm Dementia, cyfarfod rheoli Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe, cyfarfodydd Rhwydwaith 50 oed +. Roeddwn ar y cyrff allanol canlynol (2013-2014): Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) Abertawe a Bro Morgannwg, Mudiad Addysg Grefyddol yng Nghymru.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cymerais ran fel aelod o'r CIC mewn arolygon o wasanaethau iechyd. Cymerais ran gyda grwpiau cymunedol i ddarparu sioe ffasiwn i gael adnoddau ar gyfer gweithgareddau lleol. Cyd-drafodais ailddatblygu palmentydd. Darperais gefnogaeth ar ôl sylwadau gan etholwyr trwy'r broses ddeiseb ac eirioli a chyd-drafod dros ddymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle mae tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw ac angen i gefnogi datblygiadau posibl er lles y gymuned. Gweithiais i ddatblygu ymagweddau partneriaeth cynaliadwy ar draws grwpiau cymunedol (Cyfeillion Parc Coed Bach, a Phartneriaeth Pontarddulais) a'r cyngor i wella draenio mewn coedwigoedd eilaidd, offer ailgylchu angenrheidiol megis biniau gwastraff a gwelliannau cyfalaf megis y cyrtiau tenis. Gweithiais gyda'r cyngor i nodi a chael mynediad i arian ychwanegol i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i wella'r dref. Gweithiais ar hawliau tramwy.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
17/05/2013 Cyflwyniad i Drosolwg a Chraffu
10/09/2013 Asesu Amgylchedd Cleifion Ysbyty
17/09/2013 Cyllid Cynaliadwy'r Loteri Fawr
14/10/2013 Cyn-benderfynu
25/10/2013 Magu Plant Corfforaethol
17/12/2013 Hyfforddiant Cyflwyniad i'r Cyfryngau
12/02/2014 Diogelu
06/03/2014 Cynhadledd Camddefnyddio Sylweddau

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cadeiriais Bartneriaeth Adnewyddu Pontarddulais sy'n gweithio gydag etholwyr ym Mhontarddulais i asesu anghenion y gymuned, cael mynediad i grantiau, cefnogi cyflwyno datblygiadau a sicrhau cynaladwyedd y gwaith ar y canlynol: mynwent a hawliau tramwy ar y gors; ardal gemau aml-ddefnydd; yr orsaf drenau; safle tai Bryniago; safle parcio Teilo Sant; cyrtiau tenis; cyflwyno'r cynllun chwarae; gwaith cynnal a chadw a datblygiad parhaol Canolfan y Bont; taflen newyddion cymunedol - Bwletin y Bont. Mae siop elusennol wedi'i sefydlu i gefnogi Partneriaeth Pontarddulais a sicrhaodd £156,130 o 7 ariannwr grant i dalu am amrywiaeth o brosiectau. Cadeiriais Glwb Cinio Age Concern Pontarddulais sy'n ceisio sicrhau cyfle wythnosol i gwrdd yn gymdeithasol a chael gwybodaeth ddefnyddiol yn ogystal â threfnu tripiau cymunedol a gwyliau i oedolion dros 50 oed i gefnogi ffyrdd cadarnhaol o fyw. Cafodd y clwb £5,270 mewn grantiau gan 3 ariannwr grant.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

**Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 29.05.14 |